## Diweddariad Data Cymru – WSLC Chwefror 2020

### Proffilio Lleoedd Cymru: diweddariad Chwefror

Ym Mai 2019 lansiom ni ein hofferyn data ar sail lleoedd – Proffilio Lleoedd Cymru. Cafodd hyn ei ddiweddaru ym Medi 2019 a'n bwriad yw cynnwys diweddariadau pellach i'r offeryn ar 24 Chwefror.

Rydym wedi bwrw ymlaen â'n cynlluniau datblygu ar gyfer Proffilio Lleoedd Cymru ac ymhlith yr agweddau a gaiff eu diweddaru y tro hwn mae:

- ychwanegu data MALlC 2019;
- mapio gorsafoedd trenau a data am gymudwyr;
- gweithredu hidl chwilio yn ôl awdurdod lleol;
- gwelliannau i fetadata'r Cyfrifiad;
- cysylltu'r gwasanaethau iechyd a llesiant lleol â chyfeiriadur Dewis Cymru; yn ogystal â
- diweddariadau ymarferol eraill.

Mae gennym gynlluniau am ddatblygiadau pellach i'r offeryn ac rydym yn dal i **groesawu mewnbwn a chyngor oddi wrth gydweithwyr WSLC** wrth i ni geisio ychwanegu rhagor o ddata ac estyn ei ymarferoldeb. Mae gennym ffocws hirdymor ar y potensial i gefnogi dealltwriaeth y data sy'n deillio o Gyfrifiad 2021.

Os oes gennych chi unrhyw feddyliau neu syniadau neu os hoffech sgwrsio â ni am yr offeryn, cysylltwch â Tom Brame.

### Staff ystadegol newydd yn Data Cymru

Disgrifiodd ein Cynllun Strategol ein bwriad i gynyddu'n gallu ystadegol, a hynny i ehangu'r gwaith ystadegol a wnawn ac i gynyddu lefel y gefnogaeth sydd ar gael i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol.

Yn ddiweddar rydym wedi penodi i rôl newydd ar lefel hŷn, sef Pennaeth Ystadegau ac Ymchwil, ac rydym wrth ein bodd bod Sam Sullivan wedi ymuno â ni i lenwi'r rôl newydd hon. Mae Sam yn dod atom ni o rôl yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Hefyd mae'n bleser mawr gennym groesawu Richard Leyshon i Data Cymru. Richard sydd wedi ei benodi i'r rôl Ystadegydd rydym newydd ei chreu. Mae Richard yn ymuno â ni o Swyddfa Archwilio Cymru.

Rydym yn disgwyl penodi i rolau ystadegol eraill cyn bo hir.

### Llefydd Llewyrchus Cymru: diweddariad 2020

Yn fuan, byddwn yn diweddaru Llefydd Llewyrchus Cymru gyda data ar gyfer 2020. Dyma drydydd iteriad y Mynegai, sy'n mesur presenoldeb yr amodau ar gyfer llesiant ar lefel awdurdodau lleol ledled Cymru.

Byddwn yn hysbysebu'r diweddariad drwy gyfryngau cymdeithasol a thrwy ein gwefan.

Rydym wedi gweithio gyda Happy City i ddiwygio'r rhestr o ddangosyddion, ond nid yw strwythur y Mynegai wedi newid. Byddwn yn cyhoeddi cardiau adrodd am bob ardal awdurdod lleol hefyd, sy'n dangos sgoriau am ddimensiynau, parthau ac is-barthau.

Fel ag erioed, os oes diddordeb gennych mewn defnyddio'r offeryn cysylltwch â Duncan MacKenzie neu Happy City am ragor o wybodaeth.

## Diweddariad LARIA

Mae manylion Cynhadledd 2020 LARIA wedi cael eu cyhoeddi. Thema cynhadledd eleni yw 'Harneisio potensial'. Mae'r gynhadledd yn cael ei chynnal yng Nghanolfan Gynadledda Manceinion ar ddydd Mawrth 2 a dydd Mercher 3 Mehefin. Caiff manylion y sesiynau llawn a'r gweithdai eu cyhoeddi'n nes at ddyddiad y gynhadledd.

Os oes diddordeb gennych mewn cyflwyno cynnig am sesiwn gweithdy, y dyddiad cau am bapurau yw **dydd Gwener 7 Chwefror.**

Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan LARIA neu cysylltwch â Duncan MacKenzie.

## Data Agored

Mae'r cynnydd ar ddatblygu ein Porth Data Agored yn mynd yn dda ac mae prototeip ar y gorwel agos.

Rydym yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol i sicrhau bod ein gwaith yn cydategu ei gilydd ac i fynd ar drywydd cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth pan fydd hynny'n gwneud synnwyr.

Gwelir manylion pellach ar ein blog a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a fu'n gyfle hefyd i ni alw am fewnbwn cydweithwyr ar ddatblygiad y Porth.

Cysylltwch â Dan Cummings am fwy o wybodaeth.

### Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol i Gymru

Yn 2017 lansiom ni'r Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol i Gymru, offeryn ar-lein a ddaeth ag amrywiol setiau data ynghyd o'r sector gofal cymdeithasol. Yn fwy diweddar, gofynnodd Gofal Cymdeithasol Cymru i ni ddatblygu fersiwn well o'r offeryn, gan gynnwys golwg a theimlad gwell, data gwell a swyddogaeth adrodd ychwanegol, ymhlith gwelliannau eraill.

Yn Rhagfyr 2019 lansiom ni'r Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol i Gymru ar ei wedd newydd, sydd wedi derbyn adborth positif. Byddwn yn parhau i weithio i wella ymarferoldeb y Porth drwy gynnwys dangosfyrddau Power BI, catalog data a pharhau i gyrchu data ychwanegol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Suzanne Draper.

## Ymchwil gymdeithasol a gwerthuso yn Data Cymru:

### SHEP (Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf)

Rydym yn parhau i ddarparu cymorth am reoli a gweithredu Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (SHEP) ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae gwaith astudiaethau achos ac arolygon ansoddol wedi cael ei wneud a bydd data gweinyddol yn cefnogi adroddiad gwerthuso'r canlyniadau rydym yn bwriadu ei gwblhau erbyn Pasg 2020.

Rydym yn archwilio hefyd potensial gwerthuso Budd Cymdeithasol o Fuddsoddi yn y gwaith hwn a byddwn yn cynhyrchu fframwaith ar gyfer hyn drwy gydol 2020.

### Trais yn Erbyn Menywod a Chamdriniaeth Ddomestig (AWDASV)

Yn 2019, darparom ni gymorth i gynllunio gwerthuso i Fforwm Trais Rhywiol Trais yn Erbyn Menywod a Chamdriniaeth Ddomestig (VAWDASV) Gorllewin Cymru. Byddwn yn cefnogi eu hadroddiad canlyniadau'r gwerthuso hefyd.

### Arall

Cyn bo hir byddwn yn cyhoeddi adran ein gwefan am ymchwil gymdeithasol. Bydd yr adran yn amlinellu manylion ein strategaeth ymchwil gymdeithasol, yn ogystal â chynnwys dolenni â rhai blogiau ac adnoddau defnyddiol. Byddwn yn postio/trydar drwy gyfryngau cymdeithasol pan fydd ar gael.

Ar 12 Chwefror, byddwn ni a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yn cynnal gweithdy ar 'Gwerthuso gwasanaethu Rheng Flaen  BETH SYN GWEITHIO?' - Cymuned Ymholi. Mae'r gweithdy yn cael ei anelu at y sawl sy'n cymryd rhan mewn comisiynu neu gyflenwi gwasanaethau sector gwirfoddol neu gyhoeddus.

Am fwy o wybodaeth am unrhyw ran o'n gwaith mewn perthynas ag ymchwil gymdeithasol a gwerthuso, cysylltwch â Leanne Teichner.